

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Mawrth 2024



# 1. Y cefndir

## **Bil Cerbydau Awtomeiddiedig Llywodraeth y DU**

1. Cyflwynwyd y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig<sup>1</sup> (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Tachwedd 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

2. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

*"The Automated Vehicles Bill implements the recommendations of the 4-year review of regulation for automated vehicles carried out jointly by the Law Commission of England and Wales and the Scottish Law Commission (the Law Commissions). It is intended to set the legal framework for the safe deployment of self-driving vehicles in Great Britain."*<sup>2</sup>

3. Mae enw hir y Bil yn nodi mai dyma ddiben y Bil:

*"Regulate the use of automated vehicles on roads and in other public places; and to make other provision in relation to vehicle automation."*

4. Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 19 Chwefror 2024, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Chwefror 2024. Cynhaliwyd yr ail ddarlleniad ar 5 Mawrth 2024. Pan gytunwyd ar ein hadroddiad, nid oedd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i drefnu eto.

## **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**

5. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

---

<sup>1</sup> Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1) [Saesneg yn unig]

<sup>2</sup> Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023 [Saesneg yn unig]

---

6. Ar 24 Tachwedd 2023, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.<sup>3</sup>
7. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 22 Chwefror 2024.<sup>4</sup>
8. Roedd paragraffau 8 i 10 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle'r oedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
9. Roedd paragraffau 11 i 14 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r pwerau dirprwyedig yn y Bil sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol.
10. Roedd paragraffau 15 ac 16 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodir yn y Memorandwm.
11. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a dau argymhelliad.
12. Ymatebodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog), i'n hadroddiad cyntaf ar 6 Mawrth 2024.<sup>5</sup>

## **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru**

13. Ar 30 Ionawr 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil i'w hystyried yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.
14. Gosododd y Dirprwy Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 13 Chwefror 2024.<sup>6</sup>
15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 19 Ebrill 2024.<sup>7</sup>

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig](#), Tachwedd 2023

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig](#), Chwefror 2024

<sup>5</sup> [Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Mawrth 2024

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig](#), Chwefror 2024

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig](#), Chwefror 2024

## **Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer**

---

**16.** Mae rhifau'r cymalau ym Memorandwm Rhif 2 yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**17.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiadau a ganlyn<sup>8</sup> a wnaed i'r Bil, fel y nodir ym mharagraff 13 o Femorandwm Rhif 2:

- diwygiad i gymal 88(5) "sy'n cywiro camgymeriad drafftio, gan alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau i deithwyr o fewn eu cymhwysedd" (credwn mai gwelliant 25 yw hwn), a
- diwygiad i gymal 97 fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r pwerau ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6 sy'n golygu y bydd "rheoliadau sy'n pennu'r cosbau ariannol uchaf o dan y cynllun awdurdodi cerbydau awtomeiddiedig a'r cynllun trwyddedu gwasanaethau i deithwyr yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol" (credwn mai gwelliant 33 yw hwn).

**18.** O ran gwelliant 33, mae'n cynnwys gwallau teipograffyddol. Mewn dau le, mae "Cymru" wedi ei sillafu'n anghywir. Ym mharagraff 14 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud y tynnwyd sylw Llywodraeth y DU at y gwallau.

**19.** Ym mharagraff 18 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud bod safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad "yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth Cymru".

**20.** Mae'r Dirprwy Weinidog yn cadarnhau nad yw'r diwygiadau'n newid barn Llywodraeth Cymru "mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y darpariaethau perthnasol yn y Bil...".<sup>9</sup>

**21.** O ran cymal 40, ym mharagraff 22 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud:

*"Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 40 o'r Bil, sy'n effeithio ar faterion datganoledig drwy roi*

---

<sup>8</sup> Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig [Tŷ'r Arglwyddi], [Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn y Cyfnod Adrodd](#), 2 Chwefror 2024 [Saesneg yn unig]

<sup>9</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 19

*swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymru (awdurdodau lleol yng Nghymru), ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Drwy reoliadau a wneir o dan gymal 40, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiadau gan brif swyddog heddlu ac awdurdodau penodol sy'n cynnwys Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nid Gweinidogion Cymru. Fel y nodais yn y Memorandwm blaenorol, credwn y gallai hepgor Gweinidogion Cymru fod yn gamgymeriad."*

**22.** Ym mharagraff 23 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn cadarnhau y bydd yn rhoi diweddariad arall i'r Senedd ar y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cymal 40 maes o law.

### **Pwerau dirprwyedig**

---

**23.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn cadarnhau bod y diwygiad i gymal 88(5) yn rhoi pŵer dirprwyedig ychwanegol i Weinidogion Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn nodi bod y diwygiad i gymal 97 yn newid, i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, y weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth y pŵer dirprwyedig presennol ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6.<sup>10</sup>

**24.** Ym mharagraff 17 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud:

*"Rydym yn parhau i ystyried a ellid gwneud gwelliannau i gymal 93, sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol yn Lloegr, i roi'r pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bwriad cymal 93 yw hwyluso argaeledd yr wybodaeth ddigidol y gallai cerbydau awtomeiddiedig ei defnyddio, neu, yn wir, gerbydau eraill sydd â swyddogaethau cymorth gyrrwr electronig, i gydymffurfio â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth fel Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. O ystyried natur gydgyssylltiedig systemau trafndiaeth Cymru a Lloegr, credwn y byddai'n fanteisiol i wybodaeth o'r fath fod ar gael ar yr un pryd, a byddai pwerau i Weinidogion Cymru yng nghymal 93 yn ein*

---

<sup>10</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 16

*galluogi i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth."*

**25.** Ym mharagraff 23 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog yn cadarnhau y bydd yn rhoi diweddariad arall i'r Senedd ar y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cymal 93 maes o law.

**26.** Ym mharagraff 15 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cadarnhau nad yw'r "diwygiadau a nodir uchod" yn effeithio ar y pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yng nghymalau 82 a 90.

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**27.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 4 Mawrth 2024<sup>11</sup> a chytuno ar ein hadroddiad ar 11 Mawrth 2024.<sup>12</sup>

### Ein barn ni

#### Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

---

**28.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**29.** Cytunwn ag asesiad Llywodraeth Cymru fod y diwygiadau i gymalau 88 a 97, fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 2, yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**30.** Byddai wedi bod o gymorth i ni wrth i ni wneud ein gwaith craffu pe bai'r Dirprwy Weinidog wedi ei gwneud yn glir pryd y cyflwynodd Llywodraeth y DU y gwelliannau sy'n destun Memorandwm Rhif 2.

**31.** Byddai hefyd wedi bod yn ddefnyddiol i ni pe bai'r Dirprwy Weinidog, ym Memorandwm Rhif 2, wedi nodi rhifau'r gwelliannau ffurfiol sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau a ddisgrifir i gymal 88(5) a chymal 97.

**Casgliad 1.** Rydym o'r farn bod y diwygiadau i'r Bil fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 2 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

---

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Mawrth 2024

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Mawrth 2024

## Pwerau dirprwyedig

---

**32.** Nodwn fod y diwygiadau a wnaed i'r Bil sy'n destun Memorandwm Rhif 2 yn rhoi pŵer dirprwyedig ychwanegol i Weinidogion Cymru yng nghymal 88(5), ac yn newid, i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, y weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth y pŵer dirprwyedig presennol ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6. Y newid olaf hwn oedd testun casgliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf.

**33.** O ran cymal 93 o'r Bil, nodwn fod y Dirprwy Weinidog, wrth ymateb i argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ceisio darpariaeth sy'n rhoi pŵer tebyg i Weinidogion Cymru i bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 93(1) i wneud darpariaeth drwy reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol. Nodwn hefyd fod y Dirprwy Weinidog o'r farn bod "trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datblygu'n dda." Nodwn ymhellach fod y Dirprwy Weinidog yn credu y byddai hyn:

*"... yn galluogi Gweinidogion Cymru, er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fel awdurdodau priffyrdd gynhyrchu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig mewn fformat ddigidol y gellid ei ddarllen gan gerbydau awtomataidd a/neu feddalwedd a dyfeisiau cymorth gyrru electronig, ar yr amod eu bod wedi'u bodloni yn unol â chymal 93(4) bod angen darparu gwybodaeth yn unol â'r rheoliadau er mwyn sicrhau ei fod ar gael i gerbydau ymreolaethol neu offer electronig sydd wedi'u cynllunio i yrru cerbydau eraill ar y ffyrdd neu i hwyluso hynny."<sup>13</sup>*

## Dull deddfu Llywodraeth Cymru

---

**34.** Roedd argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y penderfynodd ddefnyddio'r Bil ar gyfer y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer a sut y mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'i deddfwriaeth arfaethedig hi ei hun ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat, neu sut y mae'n effeithio ar y ddeddfwriaeth honno. Nodwn ymateb y Dirprwy Weinidog, sef:

*"Ni ofynnwyd am y darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd gan Lywodraeth Cymru; fe'u drafftiodd ar gais Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym o'r*

---

<sup>13</sup> Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog, 6 Mawrth 2024

*farn ei bod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud yn y Bil am y rhesymau a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Nid yw'r darpariaethau hyn o fewn cwmpas ein deddfwriaeth arfaethedig ac felly nid ydynt yn cael unrhyw effaith arno.*<sup>14</sup>

---

<sup>14</sup> Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog, 6 Mawrth 2024